

**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU  
(Arolygiadau Safle)**

**10 Mai 2021**

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker (Freshwater East a Saundersfoot yn unig), Cynghorydd Mrs D Clements (Freshwater East a Saundersfoot yn unig), Cynghorydd M Evans (Freshwater East yn unig), Cynghorydd P Harries, Dr M Havard (Freshwater East a Saundersfoot yn unig), Mrs S Hoss, Mrs J James (Freshwater East a Saundersfoot yn unig), Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer (Freshwater East a Saundersfoot yn unig), Cynghorydd A Wilcox (Freshwater East a Saundersfoot yn unig) a'r Cynghorydd M Williams (Freshwater East a Saundersfoot yn unig).

Swyddogion yn bresennol: Mrs N Gandy, Mr A Richards (Freshwater East yn unig), Mr M Higgins (Freshwater East a Saundersfoot yn unig), Ms K Atrill (Poppit yn unig), Mrs C Llewellyn.

(Arolwg Safle: Freshwater East 10.00 a.m. – 10.35; Saundersfoot 11.30 – 11.45 a.m; Poppit 2.00 p.m – 2.30 p.m.)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd K Doolin, Dr R Heath-Davies a'r Cynghorydd S Yelland.

**2. NP/19/0328/S73 - Amrywio amod rhif 2 o NP/14/0014 - Llain Datblygiad Preswyl yn ffinio â D, Lleiniau sy'n ffinio â Devon Court, 5, Freshwater East, Penfro.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr arolygon safle y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswrtio â safleoedd y ceisiadau a'r ardaloedd cyfagos. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael eu gwneud tan i'r ceisiadau cynllunio gael eu hystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod pob cais wedi'u hystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 pan gafodd y ceisiadau eu gohirio er mwyn cynnal arolwg safle.

Aeth yr Aelodau rhagddynt i gael golwg ar y safle a'r ardal o gwmpas y safle. Dywedodd y swyddog bod yr asiant wedi marcio cornel flaen yr annedd arfaethedig a hefyd ymyl y llwybr fel y dangoswyd ar y lluniad yr oedd wedi'i anfon at y Pwyllgor drwy'r e-bost; roedd copïau wedi'u darparu i'r Aelodau ar y safle. Tynnodd y swyddog sylw'r Pwyllgor hefyd



at y coed pinwydd wrth gefn y safle oedd yn berchen i'r eiddo cyfagos, ac at y gwaith cloddio oedd wedi'i wneud yn y gorffennol ar y safle, a chadarnhaodd bod hyn wedi bod yn ddechrau sylweddol ar y gwaith. Cadarnhaodd y byddai'r eiddo wedi cael ei gloddio i mewn i lethr y tir o dan y cais blaenorol, yn ogystal ag yn y cais cyfredol, a bod y newidiadau mewn graddfa a dyluniad yn dderbyniol o ran amodau cynllunio. Roedd y cais wedi'i argymhell i'w gymeradwyo.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch lleoliad ymyl y llwybr fel y'i marciwyd, gan nad oedd hyn yn cyd-fynd â'r llwybr fel yr oedd yn ymddangos ar y llawr y dyddiau hyn. Caniatwyd i'r asiant ymateb i'r cwestiwn hwn, ac eglurodd ei fod wedi ymchwilio i gefndir cyfreithiol y safle a bod y marciau wedi'u gwneud o gynllun a baratowyd gan y syrfëwr a benodwyd gan y Llys yn yr achos sifil yn 2005 (oedd wedi marcio'r hawliau tramwy ar y safle ac wedi tynnu lluniau o'r canlyniadau); roedd yr asiant wedi troshaenu'r hawl tramwy ar led o 4 metr ar yr arolwg GPS yr oedd wedi'i baratoi ar gyfer y safle. Roedd hyn yn dangos bod llinell ganol yr hawl tramwy ar y gweithredoedd yn mynd drwy'r coed, a barnai bod yr anghysondeb wedi codi oherwydd tan y flwyddyn 2014 roedd yr ardal wedi gordyfu, ond heb eisiau colli'r hawl tramwy, roedd y preswylwyr wedi clirio llwybr yn ôl llinell oedd yn gyfleus iddynt hwy.

Holodd yr Aelodau wedyn ynghylch Gorchymynion Cadw Coed ar y safle ac a oedd unrhyw goed yn y cyffiniau yn dioddef o Glefyd Coed Ynn. Dywedodd y Swyddog Coed a Thirwedd bod Gorchymyn yn cwmpasu'r bloc o goetir i'r de. Hefyd eglurodd beth yn union yw symptomau'r clefyd coed ynn, a chadarnhaodd bod y tair onnen oedd wedi'u lleoli gerllaw'r llwybr o flaen yr annedd arfaethedig (ac felly ar linell yr hawl tramwy ar y gweithredoedd a ddangoswyd ar gynllun yr Asiant) yn dioddef o'r Clefyd Coed Ynn.

Gan ddiolch i bawb oedd yn bresennol, gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod i ganiatáu i'r Aelodau deithio i'r safle nesaf.

**3. NP/21/0172/TPO - Cwmpo 1 Cypreswydden Monterey (Cupressus macrocarpa) i lefel y ddaear, gan adael y bonyn yn ei le. (T12 ar y Gorchymyn Cadw Coed 33, a glustnodwyd yn anghywir fel Ffynidwydden Douglas) - Beach Court, The Strand, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9EU.**

Dywedwyd bod y cais hwn i gael gwared ar y goeden dan sylw, sef coeden oedd yn destun Gorchymyn Cadw Coed ar sail iechyd a diogelwch, gan fod corun y goeden wedi diraddio i'r fath raddau a bod pryder ynghylch sefydlogrwydd y gwreiddiau yn yr hir dymor. Nid oedd y goeden yn cael ei rheoli ar hyn o bryd ac roedd yr ymgeisydd wedi dweud na allai gymryd cyfrifoldeb amdani heblaw ei thorri i lawr.



Gofynnodd yr Aelodau pwy oedd yn berchen ar y goeden, a dywedwyd wrthynt nad oedd y llecyn tir lle safai'r goeden wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir. Er nad oedd perchnogaeth yn ystyriaeth gynllunio berthnasol, credai'r swyddog bod y goeden y tu allan i linell y gellid ei thynnu rhwng waliau Beach Court oedd ar y naill ochr a'r llall i'r llecyn tir. Hefyd dywedodd bod dau adroddiad coed wedi dod i lawr, ac y gellid gweld yr adroddiadau hyn yn yr adran ceisiadau cynllunio ar wefan yr Awdurdod; roedd yr adroddiadau wedi'u diwygio ar gais swyddogion i gynnwys gwybodaeth am asesiadau peryglon a risg.

Gan ddiolch i bawb oedd yn bresennol, gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod i ganiatáu i'r Aelodau deithio i'r safle nesaf.

**4. NP/21/0060/FUL - Anedd Newydd - Morwennau, Poppit, Aberteifi, Sir Benfro, SA43 3LP**

Atgoffwyd yr Aelodau y gofynnwyd am yr ymweliad safle hwn i ganiatáu i'r Pwyllgor ystyried pryderon a fynegwyd gan breswilydd Briar Bank y byddai'r annedd arfaethedig yn edrych i lawr ar ei eiddo. Aeth y Pwyllgor ymlaen i eiddo'r gwrthwynebydd i weld safle'r cais o ardal y patio a'r llwybr oedd yn rhedeg o amgylch y tu allan i'w eiddo.

*[ Yna cymerodd y Cynghorydd Paul Harries y Gadair, gan nad oedd safle'r cais yn gwbl hygyrch.]*

Aeth gweddill yr Aelodau ymlaen i Morwennau ac edrych i lawr tuag at Briar Bank.

Roedd hyn wedi dod â'r Ymweliad Safle i ben.

